Archwiliad CDLl Newydd Caerdydd

Dylunio a Materion Eraill

Pwynt Gweithredu HS14.4

Y Cyngor i adolygu Polisi SP7:-

- *Mae Datganiad Sesiwn Wrandawiad y Cyngor yn argymell newidiadau i derminoleg a chanllawiau ar Gynlluniau Bro. Dylid gwneud y newidiadau hyn.*
- *Mae'r Cyngor wedi nodi bod 'Cynlluniau Creu Lleoedd' yn cael eu paratoi gan y Cyngor, a bod y rhain yn wahanol i Gynlluniau Bro. Mae'r berthynas rhwng y ddau gynllun hyn i'r Cyngor ei diffinio. Mae'n bwysig bod diwygiadau i Bolisi SP7 yn egluro pa fath o gynllun y mae'r polisi'n ei gefnogi a pha fath o gynllun y mae'n ei ystyried yn addas fel CCA. Dealltwriaeth yr Arolygwyr, yn seiliedig ar Ddatganiad Sesiwn Wrandawiad y Cyngor, yw mai Cynlluniau Bro yw ffocws Polisi SP7.*
- *Mae Polisi Cynllunio Cymru (PCC) a'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu yn esbonio rôl a diben Cynlluniau Bro ac yn cefnogi'r gwaith o'u paratoi. Mae'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu yn dweud y gall Cynlluniau Bro 'lywio'r adolygiad CDLl, gael eu paratoi ochr yn ochr â CDLl, neu ar ôl ei fabwysiadu, cyn belled â bod 'bachyn polisi' digonol yn y cynllun' ac y gallant 'gael eu cynhyrchu gan Gynghorau Tref a/neu Gymuned, neu'r ACLl ar y cyd â chymunedau lleol.'*
- *Dylai'r adolygiad o Bolisi SP7:-*
    - *Sicrhau cysondeb â pholisi a chanllawiau cynllunio cenedlaethol mewn perthynas â'r rôl, y diben a'r derminoleg sy'n gysylltiedig â Chynlluniau Bro, gan gynnwys canllawiau perthnasol a gynhwysir yn PCC a'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu.*
    - *Diffinio'n glir y berthynas rhwng unrhyw Gynlluniau Creu Lleoedd dan arweiniad y Cyngor a Chynlluniau Bro dan arweiniad y gymuned, gan gynnwys gwahaniaethu rhwng eu diben, eu statws a'u rôl arfaethedig o fewn y fframwaith cynllunio ehangach.*
    - *Egluro pa fath o gynllun y bwriedir i'r polisi ei gefnogi, ac a fwriedir i'r polisi ddarparu'r 'bachyn polisi' angenrheidiol ar gyfer paratoi Cynlluniau Bro fel rhan o system y cynllun datblygu.*
    - *Adolygu a yw'r polisi'n cydnabod ac yn cefnogi rôl Cynlluniau Bro yn ddigonol o fewn y fframwaith cynllunio ehangach, gan gynnwys eu swyddogaeth o ran hwyluso mentrau cynllunio dan arweiniad y gymuned.*
    - *Ystyried a yw'r gofyniad i gynlluniau o'r fath ddilyn yr egwyddorion uwchgynllunio a nodir ym Mholisi SP3 yn briodol, wedi'i gyfiawnhau ac yn*

gymesur o ystyried diben, graddfa a natur arfaethedig Cynlluniau Bro dan arweiniad y gymuned.

Mae Pwynt Gweithredu HS6.3 yn ymwneud â sut a ble y gall y Cyngor yn y CDLlN fynegi ei gefnogaeth i gyfranogiad cymunedol a chreu lleoedd ar gamau o uwchgynllunio a datblygu safle Llaneirwg yn y dyfodol. Yn ei adolygiad o SP3, SP4 a SP7, dylai'r Cyngor ystyried a ddylid gwneud ymrwymiad tebyg i gyfranogiad cymunedol yn gyffredinol ac i baratoi Cynlluniau Bro lle bo hynny'n briodol

Ymateb y Cyngor

Mae'r Cyngor yn cynnig bod Polisi SP7 Cynlluniau Creu Lleoedd yn cael ei ddileu a bod paragraff newydd yn cael ei ychwanegu i Gyflwyniad y cynllun fel a ganlyn:

Cynlluniau Creu Lleoedd a Chynlluniau Bro

- **Cynlluniau Creu Lleoedd**

Mae Cynlluniau Creu Lleoedd yn ddogfen anstatudol yn ôl disgresiwn a all roi cyfle i ddeall y lle a'i bobl, nodi cyfleoedd ar gyfer newid cadarnhaol a darparu cydlynu strategol ar draws sectorau a disgyblaethau.

Gall y Cyngor eu cynhyrchu mewn partneriaeth â chymunedau lleol a bydd angen iddynt ddilyn yr egwyddorion Uwchgynllunio a nodir ym Mholisi SP3 Sicrhau Dull Uwchgynllunio. Maent yn helpu i hyrwyddo lleoedd egnïol a nodedig sy'n ymateb i anghenion y gymuned ac sy'n gynaliadwy yn yr hirdymor.

Mae cynnwys Cynlluniau Creu Lleoedd yn dibynnu ar ystod o ffactorau, gan gynnwys y cynnwys yn y CDLl Newydd a'r aliniad â pholisi cynllunio yn ogystal â pholisïau neu strategaethau allweddol eraill, natur a graddfa'r ardal/safle, y materion y mae'n ceisio mynd i'r afael â nhw a chyfranogiad cymunedol. Fodd bynnag, rhaid i Gynlluniau Creu Lleoedd gydymffurfio â'r CDLl Newydd ac ni allant ddyblygu na chyflwyno polisi newydd. Gellir dod o hyd i ganllawiau pellach ar greu lleoedd yn y Siarter Creu Lleoedd - Comisiwn Dylunio Cymru

- **Cynlluniau Bro**

Mae Cynlluniau Bro yn gynlluniau anstatudol a all gefnogi cyflawni polisïau'r CDLl Newydd a gellir eu mabwysiadu fel CCA. Gall Cynlluniau Bro ddarparu cyfle i gymunedau gymryd rhan yn y broses o lunio cynlluniau ar lefel leol. Gallant gael eu cynhyrchu gan Gynghorau Cymuned neu gan y Cyngor mewn partneriaeth â chymunedau lleol.

Gall cynnwys Cynlluniau Bro ddibynnu ar ystod o ffactorau, gan gynnwys y cynnwys yn y CDLl Newydd a'r aliniad â pholisi cynllunio yn ogystal â pholisïau neu strategaethau allweddol eraill, natur a graddfa'r ardal/safle, y materion y mae'n ceisio mynd i'r afael â nhw a chyfranogiad cymunedol. Fodd bynnag, rhaid i Gynlluniau Bro gydymffurfio â'r CDLl Newydd ac ni allant ddyblygu na chyflwyno polisi newydd.

Mae'r Cyngor hefyd yn cynnig bod paragraffau olaf y testun ategol ar gyfer Polisïau SP3: Sicrhau Dull Uwchgynllunio ac SP4: Sicrhau Dylunio Cynaliadwy o Ansawdd Da yn cael eu diwygio fel a ganlyn

- **SP3: Sicrhau Dull Uwchgynllunio**

Bydd y polisi hwn, ar y cyd â pholisïau perthnasol eraill (gan gynnwys y canllaw cynllunio atodol a, lle bo'n briodol, Cynlluniau Creu Lleoedd a Chynlluniau Bro'r Cyngor), yn gosod y fframwaith uwchgynllunio i dirfeddianwyr a datblygwyr baratoi Cynlluniau Paramedr ac Uwchgynlluniau ar gyfer cynigion datblygu newydd mawr, a fydd yn llywio'r broses Rheoli Datblygu.

- **SP4: Sicrhau Dylunio Cynaliadwy o Ansawdd Da**

Bydd cyfres o CCA dylunio ar gyfer gwahanol fathau o ddatblygu yn cael eu diweddaru a'u hatgyfnerthu i roi arweiniad ychwanegol ar ddehongli'r Polisi hwn yn fanwl. Gall briffiau datblygu, fframweithiau dylunio a chanllawiau cynllunio atodol, gan gynnwys Cynlluniau Creu Lleoedd a Chynlluniau Bro'r Cyngor helpu i lywio gofynion dylunio cynaliadwy penodol lle bo'n berthnasol i fater lleol penodol neu safle penodol.